# Cofnodion cyfarfod 1af Grŵp Dŵr Croyw CGBC

*a gynhaliwyd yn swyddfeydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn y Drenewydd, am 11.00am, 9 Rhagfyr 2008*

**Yn bresennol:**
Jeremy Biggs (JB) (Pond Conservation (PC)
Janet Buckles (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)
Gareth Davies (GD) Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru (AMG)
Rebecca Good (RG) Pond Conservation
Tristan Hatton-Ellis (THE) Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Helen Keeble (HK) Pond Conservation
Huw Jones (HJ) AAC
Julian Jones (JJ) Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed (RWT)
Stuart Moodie (SM) Dyfrffyrdd Prydain (BW)
Dai Roberts (DR) Riverfly Partnership Wales (RPW) / Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru (SEWRT)
Arfon Williams (AW) Adran Bysgodfeydd Llywodraeth Cynlluniad Cymru (AB)
Kate Williamson (KW) Parc Cenedlaethol Eryri (PCE)
Robin Woodyatt (RW) CLlLC / Grŵp Llywio Bioamrywiaeth Cymru Gyfan (GLlBCG)

**Ymddiheuriadau:** Geoff Liles

**2. Proses newydd Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth:** Rhoddodd THE grynodeb byr yn esbonio diben y grŵp a chefndir ei sefydlu. Ar lefel y Deyrnas Unedig bu gweithredu proses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn fylchog oherwydd cyfathrebu gwael rhwng grwpiau arbenigol y Deyrnas Unedig a chydgysylltwyr y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae gwaith ailstrwythuro diweddar yn golygu bod grwpiau arbenigol ar lefel y Deyrnas Unedig bellach ar lefel sirol. Bydd y rhain yn darparu cyngor a byddant yn gyfrifol am gynefinoedd a rhywogaethau rhestredig. Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y dogfennau a gylchredwyd neu oddi wrth Gydgysylltwyr Bioamrywiaeth.

**Cynrychiolaeth yn y Grŵp:**
Trafodwyd mantais cynyddu nifer y sefydliadau a gynrychiolir yn y grŵp. Y fantais fwyaf fyddai cynyddu'r ystod o arbenigedd a fyddai ar gael i'r grŵp, er y byddai angen mwy o waith rheoli ar grŵp mwy. Efallai y bydd angen ymgynghori â'r Grŵp Polisi ar faterion yn ymwneud â chynrychiolaeth.

Camau gweithredu:
**PG1:** Gwahodd y Comisiwn Coedwigaeth i anfon cynrychiolydd.

**PG2:** Ymgysylltu â rheolwyr tir mawr fel undebau amaethwyr, Cymdeithas y Tirfeddianwyr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **AW** i fod yn berson cyswllt â'r undebau amaethwyr.
**PG: DR** a **RW** i gysylltu â John Stoner fel cynrychiolydd Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Afonydd.
**PG4: HK** i fod yn brif gynrychiolydd Pond Conservation mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
**PG5:** Hybu cynrychiolaeth ehangach o'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol e.e. Emma Derward, arbenigwr dŵr croyw CGBLl Powys. **KW** i gysylltu â chynrychiolwyr addas.

**3. Cylch Gwaith y Grŵp:**

Cafodd y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1 i'r ddogfen a gylchredwyd ei dderbyn gan y grŵp.

**Gweithgaredd ac adnoddau presennol yng Nghymru:**

Rhoddodd pawb grynodeb o waith presennol eu sefydliadau sy'n gysylltiedig â CGB dŵr croyw. Bydd y grŵp yn cynhyrchu crynodeb ar bapur o'r gwaith hwn i'w ddosbarthu i bartneriaid y CGBLl a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**4. Ymarfer blaenoriaethu uniongyrchol ar gyfer 2008-2009**

**5a. Targedau ar lefel Cymru/CGBLl**

- Rhai rhywogaethau heb eu cynnwys ar y rhestr
- Targedau cenedlaethol a rhanbarthol, targedau i Gymru yn cael eu cynhyrchu ar gyfer CGB newydd y DU
- Sylw helaeth i lepidoptera, adar a phlanhigion fasgwlaidd

**5b Blaenoriaethu camau gweithredu**

- Posibilrwydd o glystyru rhai rhywogaethau â gofynion tebyg o ran cynefin e.e. chwilod gro, 3 rhywogaeth o ystlumod.
- John Webber wedi gwneud rhywfaint o waith yn Lloegr mewn perthynas â chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.
- Efallai y bydd angen cysylltu â grwpiau arbenigol ynghylch camau gweithredu.
- Angen bod yn fwy penodol o ran camau gweithredu o'r gronfa ddata.

- CGB cenedlaethol ar gyfer pyllau dŵr yn awgrymu 4 prif darged h.y. cynnal a chadw ar gyfer ansawdd uchel, creu pyllau newydd, adfer, ?, y camau gweithredu pwysicaf wedi'u blaenoriaethu eisoes.

- Angen rhestru blaenoriaethau ar gyfer canolbwyntio adnoddau ar lefel CGBLl yn ôl trefn goleuadau traffig; cytunwyd ar ganllawiau eisoes. Gellir nodi rhywogaethau eang eu gwasgariad fel hynny. Awgrymu

ymgynghori â grwpiau rhywogaethau ar lefelau cenedlaethol a Chymru i greu dogfen a chyd-fynd ag ardaloedd y CGB.

- Cynnal ymarfer pyllau dŵr ar gyfer cynefinoedd eraill
- Dadansoddiad System Gwybodaeth Ddaearyddol ar gyfer afonydd
- Angen edrych ar gamau gweithredu ar gyfer cysylltiadau e.e. Vicky Kindemba, cyswllt dŵr croyw Buglife.
- Awgrymu canolbwyntio ar afonydd penodol. Cwestiynodd HJ fudd gosod ffensys ar hyd rhai afonydd ac argymhellodd edrych ar y ffactorau sydd o bosibl yn achosi diffyg ymateb.
- Dadansoddiad o Fannau Pwysig i Byllau Dŵr.

**5c. Nodi ardaloedd â blaenoriaeth**

Canolbwyntio ar safleoedd nad ydynt wedi'u gwarchod eisoes ac ar rywogaethau nad ydynt yn eang eu dosbarthiad.
Camau gweithredu ar gyfer y ddwy flwyddyn nesaf:

- Rhywogaethau goresgynnol mewn pyllau dŵr: e.e. bygythiad *Crassula* i Lyn Tegid, ffwng cimwch yr afon, ymledu misglod rhesog gan gychod a chanŵau. Cam gweithredu: Lledaenu gwybodaeth trwy gynhyrchu canllaw adnabod poced. Cynllunio ar gyfer gweithredu ar unwaith.
- Creu pyllau dŵr: Ar gyfer rhywogaethau'r CGB, efallai cydgysylltu camau gweithredu gyda Thir Eryri, datganiadau i'r wasg, prosiectau parod i fynd. **JB** i drafod cysylltu ag ysgolion gyda **RW**.
- Misglen berlog yr afon: canolbwyntio'r ymdrechion i wella ansawdd dŵr ar safleoedd allweddol. Cysylltu â Bill Brierley neu Shaun Birke i gael manylion cyllid posibl gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddai angen arian cyfatebol ar gyfer hyn.
- Cynefinoedd Pryfed Afon
- Llysywen bendoll yr afon: Bwrw ymlaen â'r cynllun cofnodi i gasglu data gwaelodlin. Creu parthau clustogi ar afonydd targededig er mwyn lleihau'r ffosffadau sy'n mynd iddynt o ganlyniad i lwytho silt. Canfod dalgylchoedd sy'n agored i niwed.
- Afonydd: Creu rhestr 'naturioldeb' ar gyfer afonydd Cymru fel gwaith dilynol i'r Arolygon o Goridorau Afonydd a'r Arolygon o Gynefinoedd Afonydd.
- Llyswennod: cynigiodd **DR** foratoriwm ar bysgota llyswennod. Parasitiaid a'r newid yn yr hinsawdd yn rhesymau posibl dros y prinhad.
- Llynnoedd mesotroffig yr iseldir: cyfle posibl i adfer trwy ffermio sensitif i ddalgylchoedd afon, i ddechrau yn 2010. Gallai grŵp neu unigolion ddylanwadu ar ddatblygiad yn y dyfodol.

- Llygod pengrwn y dŵr: Gwaith i reoli mincod yn parhau. Prosiect gan Brifysgol Abertawe yn edrych ar ei effeithiolrwydd. **JJ** i e-bostio CCGC. Dogfen camau gweithredu ar gyfer llygod pengrwn y dŵr yng Nghymru.

**5. Materion y tymor hirach**

Angen gwaelodlin ar gyfer poblogaeth a dosbarthiad rhywogaethau, canolbwyntio gwaith monitro, a chasglu data o ffynonellau eraill. Cam gweithredu: cysylltu â grwpiau ecosystem eraill i greu cysylltiadau ac i drafod cydberthyniad data a rhannu rhwng y grwpiau.

**6. Ystyriaethau ymarferol**

**7a.** Mae'n bosibl mai'r rheswm dros ddiffyg cynrychiolaeth gan swyddogion CGBLl yn y grwpiau ecosystem yw diffyg cefnogaeth gan gyflogwyr. **KW** i fwydo pryderon yn ôl i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**7b.** Grŵp i gynnig cyngor i dirfeddianwyr trwy gasglu ynghyd y wybodaeth sydd ar gael am reoli cynefinoedd i'w lledaenu.

**7c.** **AW** i fod yn berson cyswllt â'r Grŵp Polisi

**7. Adnoddau**

- AAC i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth.
- **DR** i fod yn berson cyswllt â PBC.
- Mae'n bosibl bod cyllid ar gael gan CCGC ar gyfer astudiaethau desg neu arolygon **(THE).**
- Mae'n bosibl bod ffrydiau ariannu ar gael ar gyfer prosiectau wedi'u costio trwy PCE **(KW)**.
- Cyfarfodydd i'w cynnal dwywaith y flwyddyn.
- **Holl** aelodau'r grŵp i ystyried darparu adnoddau.

**9. Unrhyw fusnes arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion

**10. Y cyfarfod nesaf**

I'w gynnal am 11.00am ddydd Mawrth 19 Mai 2009, yn swyddfa Dyfrffyrdd Prydain, Trefaldwyn.